

# Gwasanaethau Cymdeithasol Plant
## Gweithiwr Cymdeithasol

Parhaol – 37 awr yr wythnos
Gweithiwr Cymdeithasol Lefel 2: £34,314 - £37,035
Gweithiwr Cymdeithasol Lefel 3: £37,938 - £40,476
Dyfarniad Cyflog 2025 yn yr Arfaeth
Lleoliad: Y Fflint neu Ewlo gyda gweithio hybrid

Rydym yn chwilio am Weithwyr Cymdeithasol brwdfrydig, ymroddgar a thosturiol i ymuno â Gwasanaethau Plant Sir y Fflint. Dyma gyfle cyffrous i weithio mewn maes heriol ond sy'n rhoi boddhad hefyd wrth chwarae rhan hollbwysig mewn hybu lles a diogelwch plant. Byddem yn croesawu ceisiadau gan Weithwyr Cymdeithasol newydd gymhwyso a rhai mwy profiadol sydd wedi cwblhau eu Haddysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus, yn ogystal â Myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol ym mlwyddyn olaf eu hastudiaethau.

Rydym yn buddsoddi mewn gweithle sy'n grymuso, yn cydweithio ac yn gynhwysol. Mae Gweithwyr Cymdeithasol Sir y Fflint yn gweithio fel rhan o dîm cefnogol, sy'n cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn mynychu cyfarfodydd tîm myfyriol. Rydym yn buddsoddi mewn hyfforddiant a datblygu, ac mae ein strwythur gyrfa yn galluogi i Weithwyr Cymdeithasol ddangos cynnydd parhaus, a meithrin gyrfa ystyrlon, hirdymor gyda ni.

Mae ein gweithwyr yn elwa o wyliau blynyddol hael - isafswm o 34 diwrnod (gan gynnwys gwyliau banc) sy'n cynyddu i 41 diwrnod - mynediad i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, trefniadau gweithio hybrid a hyblyg, cynlluniau cyfeillgar i'r teulu a chydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, a Rhaglen Cymorth i Weithwyr am ddim, Cynllun Beicio i'r Gwaith a gostyngiadau mewn siopau cenedlaethol.

Mae gennym gyfleoedd ar draws Gwasanaethau Plant ar hyn o bryd, a byddwn yn croesawu ceisiadau gan Weithwyr Cymdeithasol sydd â diddordeb mewn gweithio yn y meysydd canlynol: Cyswllt Cyntaf Plant, Cefnogaeth wedi'i Dargedu, Ymyriadau Teuluol, Maethu, Sefydlogrwydd, Plentyn i Oedolyn.

Rydym yn agored i drafod y posibilrwydd o weithio rhan amser neu oriau cywasgedig, yn ogystal ag amseroedd dechrau a gorffen hyblyg.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus fod wedi cofrestru gyda Chyngor Gofal Cymru a byddant angen cwblhau gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

I gael sgwrs anffurfiol cysylltwch â: Suzanne Johnson – Rheolwr Gwasanaeth

suzannejohnston@flintshire.gov.uk

Gyda'n gilydd gallwn ni i gyd helpu i gadw **Sir y Fflint** yn ddiogel
Together we can all help to keep **Flintshire** safe

Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council